Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST

Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
e-bost: swyddfa@glanconwy.conwy.sch.uk

Annwyl Rieni / Gofalwyr, 5/09/2023

Croeso yn ôl i chwi oll yn dilyn gwyliau'r haf. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau ac wedi cael cyfle i ymlacio rhywfaint. Croeso **MAWR** i'r plant newydd yn ein mysg yn y dosbarth Meithrin ac wrth gwrs i bawb arall yn yr ysgol.

Clwb Brecwast

Cofiwch fod croeso i'ch plant fynychu'r Clwb Brecwast. Mae angen llenwi ffurflen Clwb Brecwast sydd ar gael yn y swyddfa os nad ydych wedi llenwi un yn flaenorol. Fe fydd yn dechrau am **8:10y.b. ond ni ddylai unrhyw blentyn fod yma cyn yr amser yma**. **O ran lles a diogelwch eich plentyn nid ydyw staff y Clwb Brecwast yn gyfrifol am y plant hyd 8.10y.b.** Fe fydd drws yr ysgol ar gau hyd 8:10y.b. ac o 8.30y.b. hyd 8.50y.b. Hyderaf y byddech yn cyd-weithio â ni gyda'r mater ac nid yn cymryd mantais o hyn.

Cinio

Mae'r holl blant llawn amser o 4 – 11 mlwydd oed yn cael cinio poeth **AM DDIM** o Fedi 2023 ymlaen, blynyddoedd Derbyn, Blwyddyn 1, 2, 3, 4, 5 & 6. Nid oes rhaid llenwi ffurflen i hawlio'r cinio am ddim ond os ydych yn teimlo y buasech yn gymwys am gymorth mae yn werth rhoi cais i mewn trwy'r sir gan ei fod yn rhoi mynediad i chi ar gyfer grantiau a chymorthdaliadau eraill.

Dillad ac Addysg Gorfforol

Gofynnwn i bawb wisgo gwisg ysgol, fel arfer, ym mis Medi ac i sicrhau fod **enw wedi ei nodi yn glir** ar bob siwmper, bag, côt, esgid a.y.y.b. Heb enw mae hi bron yn amhosib i ni gael yr offer cywir yn ôl i'w berchennog. Diolch.

Bydd gwersi addysg gorfforol yn cychwyn wythnos Medi 11eg. Y wisg swyddogol ydyw siorts, legins neu jogyrs du a chrys-t gwyn neu coch. Nid ydym yn disgwyl i chi wario arian ar wisg addysg gorfforol, ond gofynnwn fod y plant yn gwisgo rhywbeth addas, plaen - dim logos, dillad pefriog, topiau byr 'crop' na jîns, dim siorts byr iawn. Gellr dod a'r wisg i'r ysgol mewn bag a'i adael hyd ddiwedd yr wythnos er hwylusdod. Byddwn yn eich hysbysu o'r diwrnod y byddent yn cael eu gwersi er mwyn iddynt ddod i'r ysgol mewn dillad addas ac yn gwisgo esgidiau addas megis treinyrs.

Nofio

Bydd blwyddyn 3, 4, 5 & 6 yn derbyn gwersi nofio dyddiol am bythefnos o ddydd Llun Medi 11eg hyd dydd Gwener Medi 22ain ym mhwll nofio Llandudno. Bydd angen gwisg nofio un darn a thywel. Cost y cludiant fydd £30 y plentyn (mae'r ysgol yn talu cost llogi'r pwll a thalu cyflog yr athrawon arbenigol). Mae cost y bws wedi cael ei rhoi ar ParentPay ac mae posib talu mewn rhandaliadau.

Adnoddau

Bydd pob disgybl angen dod â photel ddŵr i'r ysgol pob dydd ac fe fyddent yn dod adref yn ddyddiol i'w golchi. Bydd angen eu dychwelyd i'r ysgol y diwrnod canlynol, yn llawn dŵr. Peidiwch a gyrru 'squash' nag unrhyw sudd arall, dim ond dŵr os gwelwch yn dda.

Mae gan pob plentyn adnoddau megis pensiliau yn yr ysgol felly ni fydd angen gyrru cås pensiliau i'r ysgol diolch.

Peidiwch ag anfon teganau i'r ysgol os gwelwch yn dda gan ei fod yn demtasiwn cryf i'r plant ei rannu wrth chwarae ac ar hyn o bryd, yr ydym yn ceisio lleihau ar rannu offer.

Byrbryd

Mae croeso i'r plant ddod a ffrwyth fel byrbryd i'r ysgol. Os ydych yn gyrru grawnwin, gwnewch yn siŵr eu bod wedi eu torri'n chwarteri os gwelwch yn dda.

Fe fydd y Siop Ffrwythau ar agor gyda cost o £1 am yr wythnos.

Peidiwch a gyrru fferins, creision, bariau llawn siwgr, 'cereal bars' ffrwyth wedi ei orchuddio â siocled neu 'fruit winders' os gwelwch yn dda. FFRWYTH YN UNIG.
DIM CNAU os gwelwch yn dda gan fod gennym blant sydd gyda alergedd cnau yn ein ysgol. Diolch.

Trefn Dosbarthiadau Medi 2023

Meithrin	- Miss Jessica Galvin, Miss Anne & Miss Gwen
Dosbarth Derbyn & Bl.1	- Miss Charlotte Hughes, Miss Elin Jones & Miss Amy Williams
Blwyddyn 2 & 3	- Mrs Michelle Evans & Mrs C Williams
Blwyddyn 4 & 5	- Mrs Rhian Evans & Miss H Owens
Blwyddyn 6	- Mr James Parry & Miss H Owens

Yr ydym yn sylweddoli fod hyn yn llawer iawn o wybodaeth i chi ar unwaith. Diolch yn fawr i chi am gymryd yr amser i'w ddarllen. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Cofion Cynnes,
Mrs Eifiona Price Williams a staff Ysgol Glan Conwy

Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST

Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
e-bost: swyddfa@glanconwy.conwy.sch.uk

Dear Parents / Carers, 5/09/2023

A warm welcome to you all back after the summer holidays. I hope you have all enjoyed your holidays and have had a chance to re-charge your batteries. **A VERY WARM** welcome to all our new pupils in the Nursery class and of course to all our pupils.

Breakfast Club

Breakfast Club is open as usual and your child is more than welcome to attend every morning or some mornings if needed. Please ask Mrs Wright for a form if you haven't previously filled one in for Breakfast Club. Please remember that the club does not start until **8.10 a.m. NO CHILD SHOULD BE HERE BEFORE 8.10 a.m. For health and safety reasons the Breakfast Club staff will not be responsible for the children until 8.10a.m.** The school door will be locked until 8.10am and from 8.30am until 8.45am. We hope you will co-operate with us on this issue and not take advantage of people's good nature.

School Lunch

Every full time child 4-11 years old are entitled to a free hot meal from September 2023 onwards. Therefore, if your child is in Reception, Year 1, 2, 3, 4, 5 & 6 they can have a **FREE LUNCH** every day. There is no need to fill in any free school meals form but if you feel that you need more support with the cost of living etc then please apply through the county website as eligibility for free school meals could help you gain support through other grants and benefits.

Clothing and Physical Education

We kindly ask that everyone wear their school uniform as usual in September.
Please also **label bags, coats and all clothing** including shoes, with your **child's name**. Thank you.

P.E. lessons will begin week beginning September 11th. The official uniform is black shorts, leggings or joggers and a red or white t-shirt. We don't expect you to spend a lot of money on P.E. clothes but we do ask that children wear suitable clothing, plain – no logos, glittery tops, crop tops or jeans, no very short shorts. Children can bring their P.E. clothes into school in a bag and leave here for convenience until the end of the week. We will let you know which days they have their lessons so that they can come to school in suitable clothing and wear appropriate shoes, such as trainers.

Swimming

Years 3, 4, 5 & 6 will be receiving daily swimming lessons from Monday September 11th until Friday 22nd September at Llandudno swimming pool. They will need a one-piece costume and a towel. The transportation cost will be £30, (the fees for the hire of the pool and the instructors are paid for by school) however we do need the funds to be paid in by the start of the lessons as the bus company will need to be paid promptly. The swimming bus fee has now been added to ParentPay and you will be able to pay by instalments.

Resources

Every child will need to bring a full bottle of water to School every day. Bottles will be sent home every day for washing and will need to be returned to School refilled, the next day. Please ensure that they are labelled with your child's name. Please **do not send** squash or juice to school, only water. Thank you.

Every child will have their own resources such as pencils etc. in school therefore there is no need to send a pencil case to school thank you.

Please do not send toys to school as the temptation to share will be too great for the little children at a time when we are trying to reduce the sharing of resources.

Snacks

Pupils are more than welcome to bring a fruit snack to school. Our Fruit Shop will be open this week. The cost will be £1 per week.

Alternatively, send fruit in a pot clearly labelled with their name. If you send grapes, please make sure they are cut into quarters.

Please do not send any sweets, biscuits, crisps, sugary bars, cereal bars, chocolate covered fruit or fruit winders. Thank you. FRUIT ONLY.
We are a NUT FREE school so please do not send any nuts into school with your child as we do have pupils who are severely allergic to nuts. Thank you.

September 2023 Classes

Nursery	- Miss Jessica Galvin, Miss Anne & Miss Gwen
Reception & Year 1	- Miss Charlotte Hughes, Miss Elin Jones & Miss Amy Williams
Years 2 & 3	- Mrs Michelle Evans & Mrs C Williams
Years 4 & 5	- Mrs Rhian Evans & Miss H Owens
Years 5 & 6	- Mr James Parry & Miss H Owens

We appreciate that this is a lot of information and thank you very much for taking the time to read and digest it. We appreciate your continued support.

Kind Regards,
Mrs Eifiona Price Williams & Ysgol Glan Conwy staff